

HORIZON

NUCLEAR POWER



Wylfa Newydd Project

1.2 Cover Letter (Welsh language)

PINS Reference Number: EN010007

Application Reference Number: 1.2

June 2018

Revision 1.0

Regulation Number: 5(2)(q)

Planning Act 2008

Infrastructure Planning (Applications: Prescribed Forms and Procedure) Regulations 2009

[This page is intentionally blank]

Ms K Sully
Arweinydd Cynllunio Seilwaith
Yr Arolygiaeth Gynllunio
Temple Quay House
Temple Quay
Bryste
BS1 6PN
1af Mehefin 2018

Cyfeirnod DCRM: WN0902-HZ-PAC-REP-00002_English

Annwyl Ms Sully,

Horizon Nuclear Power Wylfa Limited - Gorsaf Bŵer Niwclear Newydd Wylfa Newydd - EN010007

Rwyf yn ysgrifennu ar ran Horizon Nuclear Power Wylfa Limited (“Horizon”), ac yn amgáu cais i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol o dan adran 37 o Ddeddf Cynllunio 2008 ar gyfer Gorsaf Bŵer Niwclear arfaethedig Wylfa Newydd.

Cyflwyniad i Brosiect Gorchymyn Cydsyniad Datblygu Wylfa Newydd

Mae'r cais ar gyfer adeiladu, gweithredu a chynnal a chadw gorsaf cynhyrchu ar y tir gyda chapasiti cynhyrchu nominal o 3.1GWe (3,100MWe) a Datblygiadau Cysylltiedig eraill, yn Wylfa, Ynys Môn, Cymru (“Prosiect DCO Wylfa Newydd”).

Mae Prosiect DCO Wylfa Newydd yn cynnwys y prif elfennau canlynol:

- Yr Orsaf Bŵer: gorsaf bŵer niwclear newydd arfaethedig yn Wylfa, gan gynnwys dau Adweithydd Dŵr Berwedig Uwch y DU, y System Dŵr Oeri, cyfleusterau, adeiladau, strwythurau ac offer cefnogol, adeiladau i storio tanwydd sydd wedi cael ei ddefnyddio a gwastraff ymbelydrol a'r Cysylltiad â'r Grid;
- datblygiadau eraill ar y safle: gan gynnwys y gwaith tirweddu a phlannu, draenio, systemau rheoli dŵr wyneb, Ffordd Fynediad newydd i'r Orsaf Bŵer a ffordd mewnlol ar y safle, a gwaith arall y mae ei fanylion yn y Cais.
- Gwaith Morol sy'n cynnwys:
 - Gwaith Morol Parhaol gan gynnwys y System Dŵr Oeri, y Cyfleuster Dadlwytho Morol a Charthu, a gwaith arall y mae ei fanylion yn y Cais; a
 - Gwaith Morol Dros Dro gan gynnwys argaeau coffr dros dro, ramp mynediad dros dro, cymhorthion mordwyo dros dro, manau gollwng ac angorfa dros dro i gyhochd camlas;

- Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer: sy'n cynnwys y Ganolfan Rheoli Argyfwng Amgen, y Labordy Arolygon Amgylcheddol a'r Garej Offer Argyfwng Symudol; a
- Datblygiadau Cysylltiedig sy'n cynnwys:
 - Campws y Safle yn Ardal Datblygu Wylfa Newydd;
 - cyfleuster Parcio a Theithio dros dro yn Dalar Hir ar gyfer gweithwyr adeiladu;
 - Canolfan Logisteg dros dro ym Mharc Cybi;
 - y Newidiadau i Briffordd yr A5025; a
 - Gwaith i greu a gwella cynefinoedd gwlyptir i wneud iawn am unrhyw effeithiau posibl ar Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) Tre'r Gof yn y safleoedd canlynol:
 - Tŷ Du;
 - Cors Gwawr; a
 - Cae Canol-dydd

Mae Adran 31 o Ddeddf Cynllunio 2008 ("Deddf 2008") yn darparu ei bod yn rhaid cael DCO i'r graddau y mae datblygiad yn Brosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol neu'n rhan o brosiect o'r fath.

Mae Prosiect DCO Wylfa Newydd yn Brosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol o dan adrannau 14 a 15(3A) o Ddeddf 2008 oherwydd ei fod yn ymwneud â gorsaf cynhyrchu ar y tir gyda chapasiti dros 350 megawat.

Cefndir y Cais

Cynhaliwyd cyfarfod cyflwyno gyda'r cyn Gomisiwn Cynllunio Seilwaith ar 3 Chwefror 2010. Mewn ymateb i Adroddiad Cwmpasu Horizon a gyflwynwyd ym mis Tachwedd 2009, cyhoeddodd y Comisiwn Cynllunio Seilwaith y Farn Gwmpasu ym mis Ebrill 2010.

Ar 29 Medi 2014 cynhaliodd Horizon y cyntaf o bedwar cam o ymgynghori statudol. Cynhaliwyd Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam Un am 10 wythnos.

Ym mis Mawrth 2016, cyflwynodd Horizon ail Adroddiad Cwmpasu i'r Arolygiaeth Gynllunio. Cyhoeddodd yr Arolygiaeth Gynllunio Farn Gwmpasu ym mis Ebrill 2016. Ymgynghorodd Horizon ynghylch y dyluniad a oedd yn esblygu yn ystod yr Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam Dau, a gynhaliwyd dros wyth wythnos rhwng 31 Awst 2016 a 25 Hydref 2016.

Yn ystod yr Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam Dau roedd Horizon wedi ymgynghori ynghylch Datblygiadau Cysylltiedig, a oedd yn cynnwys y cyfleuster Parcio a Theithio, Canolfan Logisteg a'r Newidiadau i Briffordd yr A5025, y byddid yn gofyn am ganiatâd ar eu cyfer drwy ganiatâd cynllunio ar wahân o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

Ar ôl i Ddeddf Cymru 2017 ddod i rym ar 31 Ionawr 2017, adolygwyd Prosiect DCO Wylfa Newydd i gynnwys y Datblygiadau Cysylltiedig a restrir uchod. Ymgynghorodd

Horizon ynghylch y Prosiect DCO Wylfa Newydd diwygiedig yn yr Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam Tri a gynhaliwyd am 30 diwrnod rhwng 24 Mai a 22 Mehefin 2017.

Cynhaliodd Horizon Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio ar ofynion tir ychwanegol hefyd rhwng 16 Ionawr a 16 Chwefror 2018.

Wrth ymgynghori, roedd Horizon wedi ystyried y gofynion Ymgynghori Cyn Ymgeisio o dan y Ddeddf, canllawiau a gyhoeddwyd gan yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol a chynghor a roddwyd gan yr Arolygiaeth Gynllunio ac Awdurdodau Lleol.

Ffurfioldeb y Cais

Caiff y Cais ei wneud ar y ffurf sy'n ofynnol gan adran 37(3)(b) o'r Ddeddf (fel y'i diwygiwyd). Mae Dogfennau'r Cais yn cydymffurfio â gofynion cyffredinol adran 37 a'r gofynion sydd yn:

- Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Ceisiadau: Ffurflenni a Gweithdrefnau Rhagnodedig) 2009 (fel y'u diwygiwyd);
- Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Asesu Effaith Amgylcheddol) 2009; a
- Canllawiau Lleol a Chymunedol a gyhoeddwyd a Nodyn Cyngor Chwech yr Arolygiaeth Gynllunio: *'Paratoi a chyflwyno dogfennau cais'* (Chwefror, 2016).

Caiff shapefile o Derfynau'r Gorchymyn ei darparu hefyd ynghyd â mynegai ar gyfer y cais electronig. Caiff rhestr wirio adran 55 ei darparu er mwyn cyfeirio at y dogfennau mae eu hangen er mwyn derbyn (Cyfeirnod y Cais: 1.5).

Mae Canllaw i'r Cais (Cyfeirnod y Cais: 1.6) hefyd yn cynnwys manylion am strwythur y Cais, y dull gweithredu mae Horizon wedi'i ddefnyddio ar gyfer cyfieithu Dogfennau'r Cais i'r Gymraeg a'r system cyfeirio at ddogfennau sydd wedi cael ei defnyddio.

Hyblygrwydd cydsyniad

Mae Prosiect DCO Wylfa Newydd yn seiliedig ar 'dull gweithredu paramedrau' sy'n dynodi amlenni wedi'u diffinio ar gyfer adeiladu Prosiect DCO Wylfa Newydd y bydd gwaith datblygu yn y dyfodol yn cael ei wneud ynddynt. Mae hyn yn rhoi digon o hyblygrwydd er mwyn gallu delio ag unrhyw newidiadau i'r dyluniad ar ôl dyfarnu'r DCO. Mae'r paramedrau'n cael eu cyflwyno yn Atodlen 3 (Gofynion) y Gorchymyn drafft (Cyfeirnod y Cais 3.1) ac ym mhob un o'r pecynnau lluniau safle-benodol yng Nghyfrrol 2 Cynlluniau, Adrannau a Lluniadau.

Drwy ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar baramedrau, rydyn ni wedi pwyso a mesur y canllawiau sydd yn y Datganiad Polisi Cenedlaethol (EN1) ac yn Nodyn Cyngor Naw'r Arolygiaeth Gynllunio: *Defnyddio 'amlen Rochdale'*.

Diogelu Data

Yn unol â Deddf Diogelu Data 1998 a Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol 2016/679 yr Undeb Ewropeaidd sydd ar fin dod i rym, mae'r cais yn cynnwys y canlynol:

- Adroddiad yr Ymgynghoriad wedi'i olygu'n llawn ar ffurf copi caled ac electronig gyda'r holl ddata personol wedi'u tynnu ac felly mae'n addas i'w gyhoeddi wrth gyflwyno;

- Llyfr Gorchwyl llawn a chyflawn ar ffurf copi caled ac electronig heb ei olygu, ac felly mae'n cynnwys data personol. Oherwydd hynny nid ydy'r Llyfr Gorchwyl yn addas i'w gyhoeddi wrth gyflwyno. Dylid ond cyhoeddi'r ddogfen ar ôl derbyn y Cais yn ffurfiol.

Y dogfennau sydd wedi'u hamgáu a Ffi'r Cais

Fel y cytunwyd â'r Arolygiaeth Gynllunio, rydym wedi amgáu dau gopi caled ac wyth copi electronig o:


- Y Ffurflen Gais wedi'i llenwi a'i llofnodi;
- Y Datganiad Amgylcheddol; a
- Phob Dogfen Cais arall a restrir ym mynegai'r cais electronig (yng Nghyfrol 1), gan gynnwys y Gorchymyn drafft, y Memorandwm Esboniadol, a Chynlluniau, Adrannau a Lluniadau (dau gopi caled ar raddfa a dau gopi caled wedi'u hargraffu ar bapur A3 fel y cytunwyd)

Dylech nodi nad yw'r Cais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu ac yn benodol yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd cysgodol wedi cael eu hadolygu yn dilyn y dyfarniad cyfreithiol a wnaed ar 12 Ebrill 2018 mewn perthynas ag Achos C-323/17 'People Over Wind v Coillte Teoranta'. Y rheswm dros hyn yw am fod y Cais eisoes wedi cael ei gwblhau i raddau helaeth a'i fod wrthi'n cael ei argraffu'n derfynol ar yr adeg y gwnaed y dyfarniad. Bydd y Cais yn cael ei adolygu yn dilyn hyn ac os bydd angen bydd Horizon yn gwneud sylwadau priodol ar ôl iddo gael ei dderbyn.

Mae taliad BACS am £6,939 wedi cael ei drefnu a'i anfon i'r Arolygiaeth Gynllunio i benderfynu a gaiff y cais hwn ei dderbyn.

Byddwn yn ddiolchgar petai modd i chi gadarnhau eich bod wedi derbyn y cais hwn a'r taliad, ac edrychaf ymlaen at glywed gennych chi mewn perthynas â derbyn y Cais yn ffurfiol. Os gallwn gynnig unrhyw gymorth, mae croeso i chi gysylltu â ni ar 0800 954 9516.

Yn gywir



Kieran Somers
Pennaeth Cynllunio
Horizon Nuclear Power Wylfa Limited